# YMUNWCH Â NI

## Cyfrifydd Ariannol

## PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

# PWY YDYM NI

**“I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH, TRWY LEIHAU RISG”**

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a’n gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd sy’n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru’n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda’r rhan fwyaf o’n staff corfforaethol wedi’u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

# PROFFIL SWYDD

**Dylech chi gyflwyno eich cais erbyn Canol Dydd 27.06.2025, 12 Unedig**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o’r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf yn y DU sy’n gwasanaethu dros 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol sy’n ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr adran Cyllid, Caffael ac Eiddo ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân.  Rydym yn chwilio am Gyfrifydd Ariannol i ymuno â'n tîm bywiog a chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu ein strategaeth ariannol a chynnal rheolaeth ariannol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aelod cymwysedig gyda CCAB cymwys e.e. CIPFA, CIMA, ACCA neu gyfwerth a bod yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar y gyllideb gyfalaf flynyddol, h.y. £19 miliwn ar gyfer 2024/25, a chwaraewr allweddol wrth baratoi’r datganiad cyfrifon blynyddol.  Mae arbenigedd ym meysydd rheoli cyllideb a rheolaeth ariannol yn hanfodol wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi gwneud penderfyniadau.  Bydd deiliad y swydd hefyd yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad a gwelliant parhaus y prosesau a'r systemau cyfrifeg sydd eu hangen i addasu i amgylchedd sector cyhoeddus sy'n newid yn barhaus.

Mae galluoedd dadansoddi a datrys problemau cryf yn hanfodol yn ogystal ag etheg tîm brwd i gefnogi gwaith y tîm cyllid, rhanddeiliaid ac uwch arweinwyr.

Efallai y bydd y rôl hon yn gofyn am deithio rhwng safleoedd ledled De Cymru ac felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol, a bydd angen gwiriad trwydded yrru

More detail in relation to this position can be found in the Job Description and Person Specification.  Should you have any additional enquiries, you are invited to contact the Line Manager, Jon Sambell by e-mailing j.sambell@southwales-fire.gov.uk.

- Cytundeb: Parhoal
- Gradd: 14
- Cyflog: Salary: £43,693 - £44,711 per annum - Potential Market Supplement: Up to £5,307 per annum (subject to experience and qualifications)
- Dyddiad cau: Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# SWYDD-DDISGRIFIAD

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**Yn gyfrifol am:** Technegydd Cyllid, Cynorthwyydd Cyfrifyddu, Prentis Cyllid

**Cyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforol:** Systemau cyllid, bancio a thalu

**Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol:** Cyllideb Gyfalaf, Cynlluniau Buddsoddi, Bancio

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

Chwarae rhan hanfodol wrth gynnal iechyd ac effeithlonrwydd ariannol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), gan gefnogi gweithrediadau o ddydd i ddydd a nodau strategol hirdymor.

Mae'r rôl hon yn gyfuniad o gyfalaf traddodiadol a chyfrifyddu ariannol, trysorlys, gyda chyfrifoldebau arbenigol yn ymwneud â systemau ariannol, bancio a thalu.

## Cyfrifyddiaeth Gyfalaf

- Datblygu a chynnal cynlluniau buddsoddi cyfalaf gan gynnwys nodi ffynonellau ariannu a threfnu blaenoriaethu prosiectau.
- Paratoi a rheoli'r gyllideb gyfalaf flynyddol, i gynnwys rhagolygon costau, amserlenni a chydgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.
- Monitro gweithrediad prosiectau cyfalaf, gan sicrhau ufuddhau cyfyngiadau cyllidebol, a darparu gwybodaeth reolaidd i randdeiliaid i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau
- Monitro perfformiad y gyllideb a darparu dadansoddiad o amrywiant wrth baratoi adroddiadau lefel Bwrdd yn rheolaidd.
- Cefnogi'r rhaglen ailbrisio gylchol a threfnu'r adolygiad amhariad blynyddol o asedau mewn cydweithrediad â gweithwyr eiddo proffesiynol mewnol.
- Cynnal gwerthusiadau opsiynau i werthuso pryniannau asedau posibl, gan asesu hyfywedd ariannol, risgiau, ac aliniad strategol i sicrhau y gwneir penderfyniadau gwybodus.

- Cynnal cofrestrau asedau, rheoli pob newid h.y. caffael, gwaredu, ailbrisio, a dibrisiant, a bod â throsolwg o'r broses cylchrediad asedau.

## Gweithrediadau'r Trysorlys

- Cynnal hylifedd digonol i fodloni rhwymedigaethau ariannol, h.y. anghenion gweithredol a chyllid cyfalaf.
- Trefnu buddsoddiad arian dros ben yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo.
- Cynorthwyo i reoli'r portffolio dyledion, gan oruchwylio trefniadau i fonitro dyledion a thaliadau llog.
- 5.Yn gyfrifol am drefniadau bancio'r Gwasanaeth, gan gynnwys rheoli cytundebol a chydberthnasau.

## Cyfrifo Ariannol

- Cefnogi'r broses cau cyfrifon a pharatoi'r datganiad cyfrifon statudol drwy gymryd cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiadau a'r datgeliadau perthnasol a gynhwysir ynddynt.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu perthnasol (e.e. Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), rheoliadau, a Chodau ymarfer CIPFA.
- Cydgysylltu ag archwilwyr yn ystod yr archwiliad statudol a chwblhau'r cynllun archwilio mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth a barn lwyddiannus.
- Yn gyfrifol am ymdrin â CThEM ar agweddau ar TAW a threth, gan oruchwylio cwblhau ffurflenni perthnasol yn gywir o fewn y terfyn amser.

### Dyletswyddau System

- Yn gyfrifol am y system cyfrifyddu ariannol, gan sicrhau ymarferoldeb ac integreiddio â systemau mewnol, h.y. cyflogres, caffael, bancio a chyllid.
- Hwyluso gwaith cynnal a chadw parhaus a chymorth i ddefnyddwyr, cysylltu â darparwyr systemau a rhanddeiliaid mewnol er mwyn uwchraddio, gwneud copïau wrth gefn a diogelwch effeithiol.
- Cynnal cywirdeb data ariannol o fewn y system i gynnwys goruchwylio arferion cyfnodol ac mae'r siart cyfrifon yn adlewyrchu gofynion adrodd y Gwasanaeth.
- Nodi a gwerthuso cyfleoedd i awtomeiddio prosesau ariannol, h.y. cysoni, adrodd a phrosesu trafodion.
- Sicrhau diogelwch a chyfrinachedd data ariannol, yn enwedig gwybodaeth sensitif yn ymwneud â thrafodion bancio a thalu.

**Dyletswyddau Goruchwyliol**

- Ymgymryd â chyfrifoldebau goruchwylio ar gyfer y tîm rheoli cyfalaf a datrys materion gweithredol a pherfformiad.
- Cynnal Adolygiadau Personol blynyddol i sicrhau bod datblygiad cymhwysedd unigol yn cefnogi gofynion newidiol Gwasanaeth Tân ac Achub cyfredol.
- Mentora'r Prentis Cyllid, cysylltu â darparwyr hyfforddiant cymeradwy a dyfeisio cynllun hyfforddi mewnol i gefnogi canlyniadau astudio llwyddiannus

**Dyletswyddau Cyffredinol**

- Cynnal a gwella rheolaethau mewnol dros gyllidebu cyfalaf, gweithrediadau'r trysorlys, a gweithgareddau buddsoddi i ddiogelu cronfeydd.
- Darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol priodol i randdeiliaid mewnol.
- Cynrychioli'r Gwasanaeth ar weithgorau a fforymau perthnasol.
- Datblygu cyfathrebiadau adrannol a darparu dangosyddion ystadegol a pherfformiad.
- I gwblhau adroddiadau ystadegol yn ôl y gofyn.
- Datblygu, cefnogi ac adolygu cynlluniau adrannol blynyddol, gan sicrhau y cyflawnir amcanion.
- Paratoi adroddiadau a gwybodaeth rheoli yn ôl y gofyn gan Bennaeth y Gwasanaeth a'r Uwch Gyfrifydd.

**Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:**

1. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'u gradd a'u swydd.
2. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni'u dyletswyddau.
5. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl rhag niwed, gan adrodd unrhyw bryderon diogelu wrth ddefnyddio Gweithdrefn Ddiogelu'r Gwasanaeth.
6. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

# Y FANYLEB PERSON

**HANFODOL**

- ✓ Aelod cymwysedig o CCAB (e.e. CIPFA, CIMA, ACCA, neu gyfwerth) gyda chymhwyster graddedig perthnasol a/neu wybodaeth neu sgil cyfatebol a enillwyd trwy brofiad.
- ✓ Profiad profedig mewn cyllidebu, rheolaeth ariannol, dadansoddi ac adrodd.
- ✓ Profiad ymarferol gyda systemau cyllid a bancio, gan gynnwys gweinyddu a datrys problemau.
- ✓ Profiad ymarferol mewn rheolaeth ariannol gan sicrhau cywirdeb gweithrediadau ariannol, cydymffurfiaeth ac adroddiadau ariannol cywir.
- ✓ Profiad ymarferol o becynnau Microsoft Office gyda gwell sgiliau Excel a'r gallu i ddadansoddi data ariannol cymhleth.
- ✓ Ymrwymiad cryf i safonau moesegol a datblygiad proffesiynol parhaus.
- ✓ Meddylfryd cydweithredol gyda'r gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm cyllid a thimau traws-swyddogaethol
- ✓ Lefel uchel o onestrwydd a phroffesiynoldeb wrth drin gwybodaeth ariannol sensitif.
- ✓ Bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, a’r gallu i chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd sefydliadol e.e. hyblyg ac arloesol wrth ddelio â gofynion cynyddol ac amgylchedd gwaith sy'n newid yn barhaus.
- ✓ Ymrwymiad i hunan-wella parhaus, gan gynnwys y parodrwydd i geisio adborth, cymryd rhan mewn dysgu parhaus a mynd i'r afael yn rhagweithiol â meysydd i'w datblygu.
- ✓ Hunanddisgyblaeth gref a hunan-gymhelliant, gan ddangos y gallu i reoli amser yn effeithiol, blaenoriaethu, a chynnal ffocws a chynhyrchiant mewn amgylchedd pwysedd uchel.
- ✓ Gallu dadansoddi a datrys problemau cryf, gyda ffocws ar fanylion a chywirdeb.
- ✓ Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog, gyda'r gallu i gyflwyno gwybodaeth ariannol

**DYMUNOL**

- ✓ Tystysgrif ACT mewn Rheolaeth Trysorlys/Rheoli Arian Parod Rhyngwladol, h.y. Tystysgrif ICM
- ✓ Profiad o'r broses cau cyfrifon yn flynyddol, gofyniad adrodd ariannol statudol a rheoli asedau sefydlog.
- ✓ Profiad o gyllid llywodraeth leol (neu sefydliad o faint tebyg), arferion cyfrifyddu a gofynion deddfwriaethol.
- ✓ Hyfedredd wrth ddefnyddio meddalwedd a systemau ariannol e.e. Oracle, SAP, neu systemau ERP tebyg.
- ✓ Dealltwriaeth o arferion rheoli'r trysorlys, gan gynnwys rheoli arian parod, rheoli dyled a strategaethau buddsoddi
- ✓ Profiad goruchwylio a'r gallu i gynllunio a threfnu llwythi gwaith eraill.

# Y BROSES YMGEISIO

**Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen tystiolaeth llunio rhestr fer.**
**Dylai hwn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw'n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 2000 Gair)**

**Cwestiwn 1: Amlinellwch sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y fanyleb person a nodir uchod**

**Cwestiwn 2: Disgrifiwch eich profiad o gyllidebu, rheolaeth ariannol, dadansoddi ac adrodd**

**Cwestiwn 3: Pa brofiad sydd gennych o reolaeth ariannol a sicrhau cywirdeb gweithrediadau ariannol, cydymffurfiaeth ac adroddiadau ariannol cywir.**

**Cwestiwn 4: Allwch chi ddisgrifio cyfnod lle rydych chi wedi gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm cyllid ac ar draws timau swyddogaethol sy'n dangos bod gennych chi feddylfryd cydweithredol**

# SUT I YMGEISIO

**Ymgeiswyr Allanol**

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: [www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag](www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag)

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Ymgeiswyr Mewnol**

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Pob Ymgeisydd**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

# **GWYBODAETH** YCHWANEGOL

**Gwiriadau Recriwtio Allanol**

**Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:**

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

## Cod Moeseg Craidd CCPT

**RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF:** Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.




**UNIONDEB:** Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

**URDDAS A PHARCH:** Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

**ARWEINYDDIAETH:** Rydym i gyd yn fodelau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

**CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD:** Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.

**Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a chamau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill**

.

# BUDDION

**Gwyliau Blynyddol** – Lwfans gwyliau blynyddol hael.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr -** Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup –** Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith**
- **Cynllun ceir Tusker**
- **Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

**Oriau Gwaith Hyblyg –** Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

**Dysgu a Datblygu –** Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

**Campfa** - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.

**Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Hymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân** - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir –** Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Hyrwyddwyr Golau Glas Mind –** Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

**Iechyd Galwedigaethol -** Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

**Pensiwn –** Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a Chymdeithasol –** Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

**Cyrsiau Cymraeg –** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

**Hyderus o ran Anabledd** – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

## South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk

www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us

**SCAN ME**